CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER 9 Marwth 2016 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts, R G Parry, N Highley, K Humphreys, C Ll Thomas, I Rowlands, S Parry, E Huws, D Rees (Cyngor Sir). Hefyd Mr a Mrs Emlyn Williams, Mr Beeken

Oedd y rhan cyntaf o'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd i drafod enw newydd Plas Llechylched. Darllenwyd dau llythyr gan trigolion Bryngwran yn gofyn i Mr Beeken cadw'r enw Plas Llechylched. Yn dilyn eglurhad gan Mr Beeken, bydd enw y Plas ddim yn newid. Mae adeiladau y Plas yn cael eu hadnewyddu i fod yn bythynnod gwyliau. Mae Mr a Mrs Beeken wedi dewis enw i'r newydd busnes yn unig - Rhosneigr Country Plas. Bydd yr arwydd newydd yn dwyieithog ac yn cynnwys Plas Llechylched a Rhosneigr Country Plas.

YMDDIHEURIADAU
Dim

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts

DATGAN DIDDORDEB - Cyng D Rees - Wiiliams Homes Bala

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 10 Chwefror 2016
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 10 Chwefror 2016, Cyng N Highley yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r Clerc wedi cyflwyno cais arall am grant.
Twnnel Helyg - Mae Mrs Dee Walker wedi bod i'r safle gyda Cyng I Rowlands a wedi twtio y tyfiant.
Williams Homes Bala - Mae'r Clerk yn disgwyl ymateb gan Williams Homes/Cynefin
Mynwent Llanbeulan - Mae'r gwaith bron wedi ei gwblhau. Mae'r contractwr wedi dod ar draws llawer o lechi. Mae wedi cynnig i werthu'r llechi ar ran y cyngor cymuned
Lon Salem - Darllenwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn gwrthod cyfarfod ar y safle oherwydd bod y mater wedi cael ei drafod o'r blaen
Ceisiadau ariannol Groundworks a Watkin Jones - mewn llaw
Ffensys maes chwarae (y rhai a ddifrodwyd) - Mae'r Adran Addysg wedi dod yn ôl at y Cyngor yn dweud bod y cyfrifoldeb ar y Cyngor i drafod y mater gyda'r perchennog. Cynigodd Cyng I Rowlands cael gair gyda perchennog y ty.

LLOFNOD (Cadeirydd) 13 Ebrill 2016

Siec cyfrif y maes chwarae - bydd Cyng C Ll Thomas yn trafod y mater gyda'r banc.
Prisiau torri gwair - Mae'r Clerc wedi derbyn un pris am torri'r gwair 2016 a 2017 - Mr Rhys Williams £1529.00. Cytunwyd i dderbyn y pris.
Wefan y Cyngor - Cytunwyd i ofyn i Mr Wynne Evans i gyflwyno lluniau addas ar gyfer y wefan.

ADRODDIAD y CADEIRYDD
Mae lorïau yn parcio ar hyd Lon Salem yn achosi rhwystr ac yn risg iechyd a diogelwch. Gofynnwyd i'r Clerc i ddod â'r mater i sylw'r Cyngor Sir a'r Heddlu.

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Cynllunio
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon - dim sylwadau
16C202 cais llawn i newid defnydd capel i 2 annedd sydd yn cynnwys balconi yn Capel Salem, Bryngwran (newidiadau i'r llecyn parcio) - mae'r mater yn mynd o flaen y pwyllgor cynllunio oherwydd does dim digon o le i 2 car.
16C145K cais llawn i newid adeiladau allanol i 5 annedd, 2 o unedau llety gwyliau ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth yn Plas Llechylched, Bryngwran - penderfynwyd gwrthwynebu y cais oherwydd bod y mynedfa mewn lle peryg.
16C203 cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 5 Tyn Berllan, Bryngwran - dim gwrthwynebiad
Refeniw
Ymgynghoriad y Dreth Cyngor - ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor - dim sylwadau
Priffyrdd
Lon Salem - gweler uchod.

GOHEBIAETH YCHWANEGOL
Cyng D Michael - darllenwyd llythyr gan Cyng D Michael yn ymddiswyddo oherwydd bod hi wedi symud allan o'r plwyf.Bydd y Clerc yn trefnu i'r Cyngor Sir hysbysebu dau sedd wâg.

MATERION ARIANNOL
Cytunwyd i dalu y canlynnol:
Costau y Clerc ££71.18, Ceisiadau ariannol Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017 £500, Y Rhwyd £200, Dee Walker £35.00

MATERION ERAILL -
Mwd ar y ffordd - Lon Salem/Stryd Fawr. Trafodwyd cwyn am loriau sy'n perthyn i Williams Homes sydd wedi gostwng mwd ar y ffyrdd. Mae Cyng D Rees wedi dod a'r mater at sylw Cynefin ac yn disgwyl ymateb.

LLOFNOD (Cadeirydd) 13 Ebrill 2016